Mae NICE wedi asesu meddalwedd Meintioli Rhith Gyffyrddiad (VTq) er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid defnyddio'r cynnyrch hwn ai peidio.

Meddalwedd y gellir ei defnyddio i wneud diagnosis o ffibrosis yr afu a'i fonitro yw VTq. Achosir ffibrosis yr afu pan fydd gormod o feinwe craith yn casglu yn yr afu, yn aml o ganlyniad i hepatitis (llid yr afu). Os na chaiff ei drin, gall ffibrosis yr afu achosi problemau difrifol gan gynnwys methiant yr afu.

Caiff VTq ei osod ar beiriant uwchsain cydnaws. Yn ystod sgan, mae'n dadansoddi delweddau mewn ffordd arbennig er mwyn mesur hydwythedd meinwe'r afu. Mae ffibrosis yr afu yn peri i'r meinwe galedu, felly drwy fesur ei hydwythedd gall clinigydd ganfod difrifoldeb ffibrosis yr afu.

Mae'n bosibl y bydd timau gofal iechyd am ddefnyddio VTq ar gyfer pobl sydd â hepatitis B neu C cronig am ei fod yn costio llai na biopsi o'r afu a phrawf tebyg o'r enw elastograffi byr, hyd yn oed os oes angen prynu peiriant uwchsain cydnaws. Drwy osgoi biopsïau'r afu, gall VTq hefyd helpu pobl sydd â ffibrosis yr afu y mae angen ei fonitro.

ISBN: 978-1-4731-1503-3